# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 5 Mehefin 2014** |
| Amser: | **Times Not Specified** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_05_06_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman AC (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews AC**<br>**Peter Black AC**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Mark Isherwood AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Jenny Rathbone AC** |
| Tystion: | **Simon Wilkinson, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>**Philip Evans, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br>**Nick Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br>**Gareth Jones, Cyngor Gwynedd**<br>**Samantha Hancock, Cyngor Sir Penfro** |
| Staff y Pwyllgor: | **Elizabeth Wilkinson (Ail Clerc)**<br>**Chloe Davies (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

Ben Stokes (Ymchwilydd)

---

TRAWSGRIFIAD
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru): Cyfnod 1 – Sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Penfro.

Yn ystod y sesiwn, cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu tystiolaeth ar gwynion a wnaed i unrhyw un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ynghylch pobl yn camddefnyddio carafannau gwyliau drwy breswylio ynddynt.

Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor i weld y dystiolaeth o gamddefnyddio carafannau gwyliau a gasglwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2007 ar gyfer ei arolwg o'r boblogaeth symudol, y cyfeiriwyd ato yn ystod y sesiwn, ac unrhyw dystiolaeth o gamddefnyddio dilynol i'r astudiaeth hon.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd yr Aelodau'r ohebiaeth gan Darren Millar.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: eitemau 5 a 6

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru): Cyfnod 1 – trafod sesiwn dystiolaeth 2

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn sesiwn 2 ar y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru).

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith.